Y CYNGOR DINAS A SIR CAERDYDD SIR

Cyfarfu'r Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd yn Neuadd y Sir, Caerdydd ar Dydd Iau, 28 Ionawr 2021 i drafod y busnes a nodir yn y wŷs Cyngor dyddiedig Dydd Gwener, 22 Ionawr 2021.

Yn bresennol: Y Cynghorydd Sir McKerlich (Arglwydd Faer)

Cynghorwyr Sir Ahmed, Asghar Ali, Dilwar Ali, Berman, Bowden, Bowen-Thomson, Boyle, Bradbury, Bridgeman, Burke-Davies, Carter, Cowan, Cunnah, De'Ath, Derbyshire, Driscoll, Ebrahim, Elsmore, Ford, Gibson, Goddard, Goodway, Gordon, Henshaw, Gavin Hill-John, Philippa Hill-John, Hinchey, Hopkins, Howells, Hudson, Jacobsen, Jenkins, Jones-Pritchard, K Jones, Owen Jones, Joyce, Kelloway, Lancaster, Lay, Lent, Lister, Mackie, McEvoy, McGarry, Melbourne, Merry, Michael, Molik, Morgan, Naughton, Owen, Parkhill, Jackie Parry, Keith Parry, Patel, Phillips, Dianne Rees, Mia Rees, Robson, Sandrey, Sattar, Simmons, Singh, Stubbs, Taylor, Graham Thomas, Huw Thomas, Lynda Thorne, Walker, Weaver, Wild, Williams, Wong a/ac Wood

127 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Dim ymddiheuriadau ar gyfer y cyfarfod hwn.

128 : DATGAN BUDDIANNAU

Gwnaed y datganiadau buddiannau canlynol yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau:

| **CYNGHORYDD** | **EITEM** | **RHESWM** |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Lay | 13 | Buddiant Personol - Cyfarwyddwr Anweithredol Bws Caerdydd |
| Y Cynghorydd Gavin Hill-John | 13 | Buddiant Personol - Cyfarwyddwr Anweithredol Bws Caerdydd |
| Y Cynghorydd Owen Jones | 13 | Buddiant Personol - Cyfarwyddwr Anweithredol Bws Caerdydd |
| Y Cynghorydd Sandrey | 13 | Buddiant Personol - Cyfarwyddwr Anweithredol Bws Caerdydd |
| Y Cynghorydd Dan Naughton | 13 | Buddiant Personol – Aelod o'r Teulu yn derbyn pensiwn oddi wrth Fws Caerdydd |
| Y Cynghorydd Oliver Owen | 9 | Buddiant Personol a Rhagfarnol – (Cyfeiriad i Northern Meadows), cyflogir gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a gynhelir gan Fwrdd Iechyd Felindre |

129 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd 2020 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

130 : CWESTIYNAU CYHOEDDUS

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau cyhoeddus.

131 : DEISEBAU

Daeth y ddeiseb fel a ganlyn i law'r Cyngor Llawn:

| **Cynghorydd** | **Nifer y llofnodion** | **Pwnc** |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Gibson | 61 | Yn galw ar y Cyngor i ganiatáu i Ysgol Gynradd Hywel Dda ddod yn rhan o'r Cynllun Ysgolion Diogel |

132 : CYHOEDDIADAU'R ARGLWYDD FAER

Cyfeiriodd yr Arglwydd Faer at Ddiwrnod Cofio'r Holocost a'r thema a ddewiswyd gan Ymddiriedolaeth Diwrnod Cofio'r Holocost, sef 'Byddwch y golau yn y tywyllwch' ar gyfer 2021. Cymerodd ran mewn seremoni rithwir a recordiwyd o flaen llaw ar 27ain Ionawr a gafodd ei ffilmio ar gyfer aelodau'r cyhoedd i'w weld ar sianel YouTube Cyngor Caerdydd. Cafodd cannwyll goffa hefyd ei gynnau gan yr Arglwydd Faer i gofio'r rhai oedd wedi colli eu bywydau.

Adroddodd yr Arglwydd Faer am farwolaeth y cyn-Gynghorwyr Roger Burley a Jim Regan a chynigiodd gydymdeimlad y Cyngor i'w teuluoedd.

Llongyfarchodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd Norma Mackie ar ddod yn fam-gu i Ivy, baban a anwyd ar 26 Ionawr a hefyd dymunodd ben-blwydd hapus iawn i'r Cynghorydd Tom Parkhill.

133 : ADRODDIAD BLYNYDDOL SAFONAU A MOESEG

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau a Moeseg, yr Athro James Downe, Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor ar gyfer 2019-2020. Roedd y Cadeirydd yn falch o groesawu'r tri Aelod Annibynnol newydd a diolchodd iddynt am eu cyfraniadau a diolchodd i swyddogion y Cyngor am eu cefnogaeth a'u harweiniad drwy gydol y flwyddyn.

Mae'r adroddiad yn dangos bod y Pwyllgorau yn parhau i weithio i hyrwyddo safonau ymddygiad da yn ogystal ag ymateb i achlysuron honedig a gwirioneddol o gamymddwyn. Mae nifer y cwynion yn parhau'n isel ac mae'r mwyafrif yn gwynion gan Aelodau mewn perthynas ag Aelodau eraill.

Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau o egwyddorion Nolan a phwysigrwydd parch.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer gwestiynau a sylwadau gan Aelodau a chodwyd y materion canlynol:

- cwynion am Aelodau, yn enwedig pan fydd Aelodau yn dioddef o gam-drin wedi'i dargedu;
- dwyn anfri ar y Cyngor a'r ffyrdd y dylai Aelodau fod yn ymddwyn mewn perthynas â beirniadaeth o'r awdurdod a'r penderfyniadau a wneir; a
- phryderon am y materion a wynebir gan fenywod sy'n dod i mewn i wleidyddiaeth

Ymatebodd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau a Moeseg, yr Athro James Downe, i'r cwestiynau a'r sylwadau.

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Cyngor i nodi'r adroddiad

134 : DATGANIADAU

Derbyniwyd y datganiadau canlynol:

1. Datganiad yr Arweinydd – Y Cynghorydd Huw Thomas
   Ymatebodd yr Arweinydd i gwestiynau a godwyd ar y canlynol:

   - Y rhaglen frechu a niferoedd staff y Cyngor sy'n derbyn y brechlyn;
   - Busnesau Caerdydd y mae tariffau'r UE yn effeithio arno; a'r
   - Tasglu Cydraddoldeb Hiliol – Grŵp Trawsbleidiol

2. Aelod Cabinet, Cynllunio Strategol a Thrafnidiaeth – Y Cynghorydd Wild
   Ymatebodd yr Arweinydd ar ran y Cynghorydd Wild mewn perthynas â:

   - Llwybrau beicio dros dro ger Wellfield Road/Tydraw Road;
   - Ffyrdd beicio chwim yng ngorllewin y ddinas;
   - Y rhwydwaith rheilffyrdd yng ngorllewin y ddinas; a'r
   - Comisiwn Burns, gorsafoedd yng Nghaerdydd

3. Aelod Cabinet, Buddsoddi a Datblygu – Y Cynghorydd Goodway
   Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:

   - Grantiau Dewisol ac arian heb ei ddyrannu; a
   - Dyfodol canol y ddinas, effaith colli Debenhams a Grŵp Arcadia

4. Aelod Cabinet, Diwylliant a Hamdden – Y Cynghorydd Bradbury
   Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:

   - Pobl yn ymgynnull ym Mharc y Rhath;
   - Dyfodol Canolfan Hamdden Pentwyn; a
   - Phlannu coed ar draws y ddinas

5. Aelod Cabinet, Cyllid, Moderneiddio a Pherfformiad – Y Cynghorydd Weaver
Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:

- Cyflogadwyedd cwmnïau lleol yn ne Caerdydd; a'r
- App Caerdydd

6. Aelod Cabinet, Tai a Chymunedau – Y Cynghorydd Thorne
Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:

- Llyfrgell Rhiwbeina, cynnig llyfrau;
- Cymorth am swydd;
- Adran Cyngor Ariannol; a
- Chymorth dyled

7. Aelod Cabinet, Strydoedd Glân Ailgylchu a'r Amgylchedd – Y Cynghorydd Michaelhttps://cardiff.moderngov.co.uk/documents/s44928/7%20-%20Cllr%20Michael%20Statement%20January%202021.pdf
Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:

- Casgliadau gwastraff yn ward y Mynydd Bychan;
- Casgliadau gwastraff gwyrdd;
- Cyflwyniad wythnos pedwar diwrnod; a
- Glanhau

8. Aelod Cabinet dros Blant a Theuluoedd – Y Cynghorydd Hinchey
Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:

- Arolygiad Iechyd Cymru, Briff Rhianta Corfforaethol;
- Contractau uned MASH; ac
- Esgeulustod pobl ifanc yn ystod y pandemig

9. Aelod Cabinet, Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant. – Y Cynghorydd Elsmore
Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:

- Gwasanaeth Pryd ar Glud i bobl sy'n agored i niwed; a
- Chymorth a ddarperir gan y Fyddin Binc

10. Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet, Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau – Y Cynghorydd Merry
Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:

- Dysgu o bell;
- Materion iechyd meddwl;
- darparu Mynediad Digidol;
- Apiau Cyfrwng Cymraeg; a
- Chynlluniau ar gael ar gyfer safleoedd Ysgol Uwchradd Fitzalan/Cantonian

135 : CYNNIG 1

Dywedodd yr Arglwydd Faer fod yr hysbysiad o gynnig a gynigiwyd gan y Cynghorydd Iona Gordon ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Jane Henshaw wedi'i dderbyn i'w ystyried a'i fod wedi'i gynnwys yn y Gwahoddiad Cyfarfod. Derbyniwyd dau ddiwygiad.

Gwahoddwyd y Cynghorydd Gordon gan yr Arglwydd Faer i gynnig ei diwygiad fel a ganlyn:

Gadewch i ni wneud Caerdydd Fwy Gwyrdd, yn fwy Iach ac yn Fwy Gwyllt!

Nod y cynnig hwn yw gwella Strategaeth Un Blaned y Cyngor o ran mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a chynyddu bio-amrywiaeth yng Nghaerdydd.

Byddai camau gweithredu yn adeiladu ar y gwaith y mae Cyngor Caerdydd eisoes yn ei wneud o ran cadw ei barciau a'i fannau agored.

Gan weithio mewn partneriaeth â grwpiau cymunedol llawr gwlad, grwpiau Cyfeillion a sefydliadau amgylcheddol, bydd y Cyngor yn galluogi sicrhau cyfiawnder cymdeithasol a chyfiawnder hinsawdd y tu hwnt i'r gwasanaethau hanfodol y mae'r Cyngor yn eu darparu.

Mae perthynas y Cyngor â grwpiau cymunedol llawr gwlad wedi'i sefydlu ers tro ac mae'r Gwasanaeth Parciau yn gweithio mewn partneriaeth â tua hanner cant o sefydliadau partner, sydd dros amser wedi dylanwadu, ac yn parhau i ddylanwadu, ar bolisïau, strategaethau a materion gweithredol.

Yn benodol, mae partneriaeth strategol â'r RSPB wedi'i sefydlu ers tro ac mae tri phrosiect mawr sy'n cynnwys y ddau bartner yn bodoli, a'r rhain yw;

- Prosiect Rhoi Cartref i Natur yng Nghaerdydd, a ddechreuodd yn 2016, hefyd mewn partneriaeth â Buglife Cymru ac a ariennir drwy Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, sy'n ceisio ymgysylltu cymunedau a phlant lleol yng Nghaerdydd â natur, gan gynnwys cefnogi'r gwaith o ddatblygu cynefinoedd sy'n dda i bryfed peillio.
- Prosiect Partneriaeth Tirwedd Gwastadeddau Gwent, a ddechreuodd yn 2018, Cynllun Partneriaeth a Ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, sy'n ceisio ailgysylltu pobl â Thirwedd Gwastadeddau Gwent.
- Ynys Echni - Prosiect Cerdded Drwy Amser lle dyfarnwyd grant datblygu Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol gwerth £150k i'r Cyngor yn 2018 tuag at gam cyntaf prosiect treftadaeth a chadwraeth mawr gwerth £1.3 miliwn, mewn partneriaeth â'r RSPB a Chymdeithas Ynys Echni.

Mae'r Cyngor hwn yn nodi:

1. Ein datganiad o Argyfwng Hinsawdd yn 2019

2. Yr ymateb i grŵp gorchwyl a gorffen Bio-amrywiaeth Pwyllgor Craffu Amgylcheddol y Cyngor

3. Bod y Cyngor yn datblygu rhaglen uchelgeisiol a mawr sy'n ceisio cynyddu’r bargod coed ar draws y ddinas o 19% i 25% erbyn 2030. Mae nifer o geisiadau am arian allanol, sydd â'r potensial i ddenu buddsoddiad sylweddol, yn cael eu hystyried gan gyrff ariannu. Bydd cwmpas a graddfa'r cynlluniau sydd gennym ar waith yn fwy nag unrhyw Ddinas Graidd arall.

4. Y cynigion cynaliadwyedd arbennig ynghylch ynni, tai a thrafnidiaeth y mae'r Cyngor wedi'u datblygu.

5. Y pwysau ar ddinas sy'n tyfu'n gyflym i ddarparu tir ar gyfer defnyddiau fel tai, addysg a swyddi.

6. Bod y cyngor wedi cytuno i ymgynghori ar adnewyddu ein Cynllun Datblygu Lleol, a fyddai'n creu cyfle i gryfhau amddiffyniadau amgylcheddol.

7. Ac yn canmol y gwaith rhagorol sydd wedi’i wneud gan drigolion, gwirfoddolwyr a grwpiau rhanddeiliaid i blannu coed a gwella natur a bioamrywiaeth leol. Mae staff y Gwasanaeth Parciau a'r Gwasanaethau Cymdogaeth yn hwyluso ac yn cefnogi gwaith gwirfoddolwyr ac mae'n rhaid rheoli hyn / sicrhau adnoddau ar ei gyfer.

Felly mae'r cyngor hwn yn cynnig:

1. Cyhoeddi cynllun ar gyfer plannu coed ar raddfa fawr yn y ddinas. Er mwyn i grwpiau lleol, ysgolion Caerdydd a phlant ysgol gael cyfleoedd i blannu o fewn y parth cyhoeddus.

2. Sefydlu Planhigfa Goed Gyhoeddus newydd yn Fferm y Fforest. Mae'r Cyngor yn elwa ar dîm o Swyddogion Coedyddiaeth a Thyfwyr Coed cymwys a phrofiadol a fydd yn rhoi cyngor ac arweiniad i drigolion a grwpiau cymunedol. Bydd y blanhigfa’n canolbwyntio ar luosogi stoc o darddiad lleol.

3. I adnabod tir y gellir ei ddefnyddio gyda chymunedau lleol ar gyfer gerddi cymunedol, parciau poced, mannau tyfu, a mannau cyfarfod a gweithio gyda'r grwpiau hyn i feithrin ffyrdd iach o fyw a chynyddu bioamrywiaeth leol, yn enwedig mewn ardaloedd mwy trefol yn y ddinas.

4. Diogelu a gwella natur a mynediad cyhoeddus ar gyfer cerdded a beicio, ar hyd glannau ein hafonydd ac o amgylch ymyl Bae Caerdydd.

5. Cefnogi mudiad y Ddinas Parc Cenedlaethol yng Nghaerdydd gan sicrhau bod holl adnoddau'r Cyngor yn cefnogi'r mudiad hwn sy'n cael ei arwain gan bobl.

6. Gofynnwn i'r cynigion hyn gael eu hystyried gan y Cabinet.

Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Jane Henshaw

Diwygiad 1

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd Parkhill i gynnig y diwygiad cyntaf.

Diwygio i ddweud yn lle

“6. Gofynnwn i'r Cynigion hyn gael eu hystyried gan y Cabinet" i -

“6. Pan fydd effaith ariannol i'r Cyngor, gofynnwn i'r Cabinet ystyried y cynnig o fewn tri mis a lle nad oes unrhyw effaith ariannol, bod y cynigion yn cael eu gweithredu gan y Cabinet yn ddi-oed."

Byddai'r cynnig terfynol, fel y'i diwygiwyd, yn darllen:

Gadewch i ni wneud Caerdydd Fwy Gwyrdd, yn fwy Iach ac yn Fwy Gwyllt!

Nod y cynnig hwn yw gwella Strategaeth Un Blaned y Cyngor o ran mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a chynyddu bio-amrywiaeth yng Nghaerdydd.

Byddai camau gweithredu yn adeiladu ar y gwaith y mae Cyngor Caerdydd eisoes yn ei wneud o ran cadw ei barciau a'i fannau agored.

Gan weithio mewn partneriaeth â grwpiau cymunedol llawr gwlad, grwpiau Cyfeillion a sefydliadau amgylcheddol, bydd y Cyngor yn galluogi sicrhau cyfiawnder cymdeithasol a chyfiawnder hinsawdd y tu hwnt i'r gwasanaethau hanfodol y mae'r Cyngor yn eu darparu.

Mae perthynas y Cyngor â grwpiau cymunedol llawr gwlad wedi’i sefydlu ers tro ac mae’r Gwasanaeth Parciau yn gweithio mewn partneriaeth â tua hanner cant o sefydliadau partner, sydd dros amser wedi dylanwadu, ac yn parhau i ddylanwadu, ar bolisïau, strategaethau a materion gweithredol.

Yn benodol, mae partneriaeth strategol â'r RSPB wedi’i sefydlu ers tro ac mae tri phrosiect mawr sy'n cynnwys y ddau bartner yn bodoli, a'r rhain yw;

- Prosiect Rhoi Cartref i Natur yng Nghaerdydd, a ddechreuodd yn 2016, hefyd mewn partneriaeth â Buglife Cymru ac a ariennir drwy Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, sy'n ceisio ymgysylltu cymunedau a phlant lleol yng Nghaerdydd â natur, gan gynnwys cefnogi’r gwaith o ddatblygu cynefinoedd sy'n dda i bryfed peillio.
- Prosiect Partneriaeth Tirwedd Gwastadeddau Gwent, a ddechreuodd yn 2018, Cynllun Partneriaeth a Ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, sy'n ceisio ailgysylltu pobl â Thirwedd Gwastadeddau Gwent.
- Ynys Echni - Prosiect Cerdded Drwy Amser lle dyfarnwyd grant datblygu Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol gwerth £150k i'r Cyngor yn 2018 tuag at gam cyntaf prosiect treftadaeth a chadwraeth mawr gwerth £1.3 miliwn, mewn partneriaeth â'r RSPB a Chymdeithas Ynys Echni.

Mae’r Cyngor hwn yn nodi:

1. Ein datganiad o Argyfwng Hinsawdd yn 2019

2. Yr ymateb i grŵp gorchwyl a gorffen Bio-amrywiaeth Pwyllgor Craffu Amgylcheddol y Cyngor

3. Bod y Cyngor yn datblygu rhaglen uchelgeisiol a mawr sy'n ceisio cynyddu’r bargod coed ar draws y ddinas o 19% i 25% erbyn 2030. Mae nifer o geisiadau am arian allanol, sydd â'r potensial i ddenu buddsoddiad sylweddol, yn cael eu hystyried gan gyrff ariannu. Bydd cwmpas a graddfa'r cynlluniau sydd gennym ar waith yn fwy nag unrhyw Ddinas Graidd arall.

4. Y cynigion cynaliadwyedd arbennig ynghylch ynni, tai a thrafnidiaeth y mae'r Cyngor wedi'u datblygu.

5. Y pwysau ar ddinas sy'n tyfu'n gyflym i ddarparu tir ar gyfer defnyddiau fel tai, addysg a swyddi.

6. Bod y cyngor wedi cytuno i ymgynghori ar adnewyddu ein Cynllun Datblygu Lleol, a fyddai'n creu cyfle i gryfhau amddiffyniadau amgylcheddol.

7. Ac yn canmol y gwaith rhagorol sydd wedi’i wneud gan drigolion, gwirfoddolwyr a grwpiau rhanddeiliaid i blannu coed a gwella natur a bioamrywiaeth leol. Mae staff y Gwasanaeth Parciau a'r Gwasanaethau Cymdogaeth yn hwyluso ac yn cefnogi gwaith gwirfoddolwyr ac mae'n rhaid rheoli hyn / sicrhau adnoddau ar ei gyfer.

Felly mae'r cyngor hwn yn cynnig:

1. Cyhoeddi cynllun ar gyfer plannu coed ar raddfa fawr yn y ddinas. Er mwyn i grwpiau lleol, ysgolion Caerdydd a phlant ysgol gael cyfleoedd i blannu o fewn y parth cyhoeddus.

2. Sefydlu Planhigfa Goed Gyhoeddus newydd yn Fferm y Fforest. Mae'r Cyngor yn elwa ar dîm o Swyddogion Coedyddiaeth a Thyfwyr Coed cymwys a phrofiadol a fydd yn rhoi cyngor ac arweiniad i drigolion a grwpiau cymunedol. Bydd y blanhigfa’n canolbwyntio ar luosogi stoc o darddiad lleol.

3. I adnabod tir y gellir ei ddefnyddio gyda chymunedau lleol ar gyfer gerddi cymunedol, parciau poced, mannau tyfu, a mannau cyfarfod a gweithio gyda'r grwpiau hyn i feithrin ffyrdd iach o fyw a chynyddu bio-amrywiaeth lleol, yn enwedig mewn ardaloedd mwy trefol yn y ddinas.

4. Diogelu a gwella natur a mynediad cyhoeddus ar gyfer cerdded a beicio, ar hyd glannau ein hafonydd ac o amgylch ymyl Bae Caerdydd.

5. Cefnogi mudiad y Dinas Parc Cenedlaethol yng Nghaerdydd gan sicrhau bod holl adnoddau'r Cyngor yn cefnogi'r mudiad hwn sy'n cael ei arwain gan bobl.

6. Pan fydd effaith ariannol i'r Cyngor, gofynnwn i'r Cabinet ystyried y cynnig o fewn tri mis a lle nad oes unrhyw effaith ariannol, bod y cynigion yn cael eu gweithredu gan y Cabinet yn ddi-oed.

Eiliwyd y diwygiad yn ffurfiol gan y Cynghorydd Mia Rees.

Diwygiad 2

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd Berman i gynnig diwygiad 2 fel a ganlyn:

Yn adran o dan y pennawd "Felly mae'r cyngor hwn yn cynnig:" i fewnosod y pwyntiau bwled ychwanegol canlynol cyn pwynt bwled 6 presennol, ac ail-rifo yn unol â hynny:

6. Yn unol â'r nod o greu Caerdydd wyrddach, gwrthod y bwriad i waredu mannau agored cyhoeddus mewn ardal o'r ddinas y cydnabyddir ei bod yn ddiffygiol mewn mannau agored er mwyn hwyluso datblygiad amgueddfa meddygaeth filwrol.

7. Yn ogystal â phlannu coed newydd, datblygu cynllun hefyd ar gyfer cadw gorchudd coed presennol yn y ddinas yn well – gan gynnwys drwy sefydlu meini prawf a fyddai'n rhoi mwy o amddiffyniad rhag gwaredu tir sy'n eiddo i'r cyngor gyda choetiroedd presennol neu orchudd coed aeddfed sylweddol.

Byddai'r cynnig terfynol, fel y'i diwygiwyd, yn darllen:

Gadewch i ni wneud Caerdydd Fwy Gwyrdd, yn fwy Iach ac yn Fwy Gwyllt!

Nod y cynnig hwn yw gwella Strategaeth Un Blaned y Cyngor o ran mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a chynyddu bio-amrywiaeth yng Nghaerdydd.

Byddai camau gweithredu yn adeiladu ar y gwaith y mae Cyngor Caerdydd eisoes yn ei wneud o ran cadw ei barciau a'i fannau agored.

Gan weithio mewn partneriaeth â grwpiau cymunedol llawr gwlad, grwpiau Cyfeillion a sefydliadau amgylcheddol, bydd y Cyngor yn galluogi sicrhau cyfiawnder cymdeithasol a chyfiawnder hinsawdd y tu hwnt i'r gwasanaethau hanfodol y mae'r Cyngor yn eu darparu.

Mae perthynas y Cyngor â grwpiau cymunedol llawr gwlad wedi'i sefydlu ers tro ac mae'r Gwasanaeth Parciau yn gweithio mewn partneriaeth â tua hanner cant o sefydliadau partner, sydd dros amser wedi dylanwadu, ac yn parhau i ddylanwadu, ar bolisïau, strategaethau a materion gweithredol.

Yn benodol, mae partneriaeth strategol â'r RSPB wedi'i sefydlu ers tro ac mae tri phrosiect mawr sy'n cynnwys y ddau bartner yn bodoli, a'r rhain yw;

- Prosiect Rhoi Cartref i Natur yng Nghaerdydd, a ddechreuodd yn 2016, hefyd mewn partneriaeth â Buglife Cymru ac a ariennir drwy Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, sy'n ceisio ymgysylltu cymunedau a phlant lleol yng Nghaerdydd â natur, gan gynnwys cefnogi'r gwaith o ddatblygu cynefinoedd sy'n dda i bryfed peillio.

- Prosiect Partneriaeth Tirwedd Gwastadeddau Gwent, a ddechreuodd yn 2018, Cynllun Partneriaeth a Ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, sy'n ceisio ailgysylltu pobl â Thirwedd Gwastadeddau Gwent.
- Ynys Echni - Prosiect Cerdded Drwy Amser lle dyfarnwyd grant datblygu Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol gwerth £150k i'r Cyngor yn 2018 tuag at gam cyntaf prosiect treftadaeth a chadwraeth mawr gwerth £1.3 miliwn, mewn partneriaeth â'r RSPB a Chymdeithas Ynys Echni.

Mae’r Cyngor hwn yn nodi:

1. Ein datganiad o Argyfwng Hinsawdd yn 2019

2. Yr ymateb i grŵp gorchwyl a gorffen Bio-amrywiaeth Pwyllgor Craffu Amgylcheddol y Cyngor

3. Bod y Cyngor yn datblygu rhaglen uchelgeisiol a mawr sy'n ceisio cynyddu’r bargod coed ar draws y ddinas o 19% i 25% erbyn 2030. Mae nifer o geisiadau am arian allanol, sydd â'r potensial i ddenu buddsoddiad sylweddol, yn cael eu hystyried gan gyrff ariannu. Bydd cwmpas a graddfa'r cynlluniau sydd gennym ar waith yn fwy nag unrhyw Ddinas Graidd arall.

4. Y cynigion cynaliadwyedd arbennig ynghylch ynni, tai a thrafnidiaeth y mae'r Cyngor wedi'u datblygu.

5. Y pwysau ar ddinas sy'n tyfu'n gyflym i ddarparu tir ar gyfer defnyddiau fel tai, addysg a swyddi.

6. Bod y cyngor wedi cytuno i ymgynghori ar adnewyddu ein Cynllun Datblygu Lleol, a fyddai'n creu cyfle i gryfhau amddiffyniadau amgylcheddol.

7. Ac yn canmol y gwaith rhagorol sydd wedi’i wneud gan drigolion, gwirfoddolwyr a grwpiau rhanddeiliaid i blannu coed a gwella natur a bioamrywiaeth leol. Mae staff y Gwasanaeth Parciau a'r Gwasanaethau Cymdogaeth yn hwyluso ac yn cefnogi gwaith gwirfoddolwyr ac mae'n rhaid rheoli hyn / sicrhau adnoddau ar ei gyfer.

Felly mae'r cyngor hwn yn cynnig:

1. Cyhoeddi cynllun ar gyfer plannu coed ar raddfa fawr yn y ddinas. Er mwyn i grwpiau lleol, ysgolion Caerdydd a phlant ysgol gael cyfleoedd i blannu o fewn y parth cyhoeddus.

2. Sefydlu Planhigfa Goed Gyhoeddus newydd yn Fferm y Fforest. Mae'r Cyngor yn elwa ar dîm o Swyddogion Coedyddiaeth a Thyfwyr Coed cymwys a phrofiadol a fydd yn rhoi cyngor ac arweiniad i drigolion a grwpiau cymunedol. Bydd y blanhigfa’n canolbwyntio ar luosogi stoc o darddiad lleol.

3. I adnabod tir y gellir ei ddefnyddio gyda chymunedau lleol ar gyfer gerddi cymunedol, parciau poced, mannau tyfu, a mannau cyfarfod a gweithio gyda'r grwpiau hyn i feithrin ffyrdd iach o fyw a chynyddu bio-amrywiaeth lleol, yn enwedig mewn ardaloedd mwy trefol yn y ddinas.

4. Diogelu a gwella natur a mynediad cyhoeddus ar gyfer cerdded a beicio, ar hyd glannau ein hafonydd ac o amgylch ymyl Bae Caerdydd.

5. Cefnogi mudiad y Ddinas Parc Cenedlaethol yng Nghaerdydd gan sicrhau bod holl adnoddau'r Cyngor yn cefnogi'r mudiad hwn sy'n cael ei arwain gan bobl.

6. Yn unol â'r nod o greu Caerdydd wyrddach, gwrthod y bwriad i waredu mannau agored cyhoeddus mewn ardal o'r ddinas y cydnabyddir ei bod yn ddiffygiol mewn mannau agored i hwyluso datblygiad amgueddfa meddygaeth filwrol.

7. Yn ogystal â phlannu coed newydd, datblygu cynllun hefyd ar gyfer cadw gorchudd coed presennol yn y ddinas yn well – gan gynnwys drwy sefydlu meini prawf a fyddai'n rhoi mwy o amddiffyniad rhag gwaredu tir sy'n eiddo i'r cyngor gyda choetiroedd presennol neu orchudd coed aeddfed sylweddol.

8. Gofynnwn i'r cynigion hyn gael eu hystyried gan y Cabinet.

Eiliwyd y diwygiad yn ffurfiol gan y Cynghorydd Wood.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer drafodaeth ar y cynnig a’r diwygiadau.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd Gordon i ymateb i eitemau a godwyd yn ystod y drafodaeth. Cadarnhaodd y Cynghorydd Gordon bod y diwygiad cyntaf wedi cael ei dderbyn.

COLLWYD y bleidlais ar y diwygiad a gynigiwyd gan y Cynghorydd Berman ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Wood.

Cafodd y bleidlais ar y Cynnig Terfynol fel y'i diwygiwyd gan y Cynghorydd Gordon ei DERBYN.

136 : CYNNIG 2

Dywedodd yr Arglwydd Faer fod yr hysbysiad o gynnig a gynigiwyd gan y Cynghorydd Sean Driscoll ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Joel Williams wedi'i dderbyn i'w ystyried a'i fod wedi'i gynnwys yn y Gwahoddiad Cyfarfod. Roedd un diwygiad wedi dod i law.

Gwahoddwyd y Cynghorydd Driscoll gan yr Arglwydd Faer i gynnig ei ddiwygiad fel a ganlyn:

Mae’r Cyngor hwn yn nodi:

1) Mae datblygiadau tai mawr newydd yng Nghaerdydd naill ai wedi'u hadeiladu'n ddiweddar, yn cael eu hadeiladu neu'n barod i ddechrau ar y gwaith adeiladu.

2) Mae gan lawer o'r rhain ganiatâd cynllunio gyda chytundebau cynllunio adran 106 ar gyfer amrywiaeth o amwynderau, gan gynnwys o bosibl gyfleusterau

cymunedol fel ysgolion, meddygfeydd, neuaddau, siopau, adeiladau cymunedol eraill neu welliannau o ran trafnidiaeth.

3) Mae'r rhwymedigaethau cynllunio ar y safleoedd hyn yn aml yn cynnwys pwynt sbardun, neu derfyn amser meddiannaeth, ar gyfer cychwyn neu gwblhau'r rhwymedigaeth, fel ysgol.

Mae'r Cyngor hwn hefyd yn nodi y bu achosion pan nad yw cyfleusterau cymunedol ar ddatblygiadau newydd yng Nghaerdydd wedi'u cychwyn neu eu cwblhau ar y pwynt sbardun y cytunwyd arno. Mae hyn yn effeithio ar y gwasanaethau sydd ar gael i breswylwyr newydd, yn cynyddu'r pwysau ar wasanaethau presennol oddi ar y safle a gall arafu'r broses o ffurfio cysylltiadau cymdeithasol yn y gymuned newydd. Gall hefyd gyfyngu ar y modd y darperir gwasanaethau cyhoeddus gan y Cyngor hwn, yn ogystal ag effeithio ar y gwaith o gyflawni'r CDLl ac effeithio ar gymunedau a seilwaith cyfagos eraill sy'n bodoli eisoes.

Mae'r Cyngor hwn yn galw ar:

1) Ddatblygwyr i sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag amodau a rhwymedigaethau adran 106 o fewn caniatadau cynllunio ar gyfer datblygiadau newydd mawr.

2) Y Cabinet i gyflwyno adroddiad yn amlinellu sut y caiff trefn gorfodi cynllunio'r Cyngor ei chryfhau o ran adeiladu darpariaethau, yn enwedig cyfleusterau cymunedol, y mae rhwymedigaethau adran 106 yn berthnasol iddynt, ar ddatblygiadau newydd. Dylai hyn gynnwys sut y cyflawnir hyn yng nghyd-destun y Cynllun Datblygu Lleol presennol ac unrhyw gynllun newydd.

Eiliwyd y cynnig yn ffurfiol gan y Cynghorydd Williams.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd Michael i gynnig y diwygiad.

Mae'r Cyngor hwn yn nodi:

1) Mae datblygiadau tai mawr newydd yng Nghaerdydd naill ai wedi'u hadeiladu'n ddiweddar, yn cael eu hadeiladu neu'n barod i ddechrau. *Mae'r rhain yn rhan o Gynllun Datblygu Lleol (CDLl) gofynnol y ddinas i adeiladu 40,000 o gartrefi yn y cyfnod 2006-2026. Mae o leiaf 6,500 o'r rhain yn dai fforddiadwy.*

~~2) Mae gan lawer o'r rhain ganiatâd cynllunio gyda chytundebau cynllunio adran 106 ar gyfer amrywiaeth o amwynderau, gan gynnwys cyfleusterau cymunedol fel ysgolion, meddygfeydd, neuaddau, siopau adeiladau cymunedol eraill neu welliannau cludiant o bosibl.~~

2) *Mae'r egwyddor uwchgynllunio a ddefnyddir yn y CDLl yn golygu bod angen taliadau sylweddol Adran 106 ar yr holl safleoedd hyn gan y datblygwyr i dalu am amrywiaeth o amwynderau, gan gynnwys cyfleusterau cymunedol fel ysgolion, meddygfeydd, neuaddau, siopau, adeiladau cymunedol eraill neu welliannau cludiant o bosibl. Mae'r cytundebau hyn yn gyfreithiol rwymol ac eisoes mae dros chwarter biliwn o bunnoedd o fuddsoddiad wedi'i sicrhau ar gyfer safleoedd strategol presennol y CDLl.*

3) Mae'r rhwymedigaethau cynllunio ar y safleoedd hyn yn aml yn cynnwys pwynt sbarduno, neu derfyn amser meddiannaeth, ar gyfer cychwyn neu gwblhau'r rhwymedigaeth, megis ysgol.

~~Mae'r Cyngor hwn hefyd yn nodi y bu achosion pan nad yw cyfleusterau cymunedol ar ddatblygiadau newydd yng Nghaerdydd wedi'u cychwyn neu eu cwblhau ar y pwynt sbardun y cytunwyd arno. Mae hyn yn effeithio ar y gwasanaethau sydd ar gael i breswylwyr newydd, yn cynyddu'r pwysau ar wasanaethau presennol oddi ar y safle a gall arafu'r broses o ffurfio cysylltiadau cymdeithasol yn y gymuned newydd. Gall hefyd gyfyngu ar y modd y darperir gwasanaethau cyhoeddus gan y Cyngor hwn, yn ogystal ag effeithio ar y gwaith o gyflawni'r CDLl ac effeithio ar gymunedau a seilwaith cyfagos eraill sy'n bodoli eisoes.~~

*Mae'r Cyngor hwn yn nodi y gall rhai sbardunau fod yn syml, gall eraill fod yn fwy cymhleth, gan gynnwys prosesau cydsynio ar wahân i sicrhau'r cyfleusterau gorau er budd y cyhoedd.  Mae'n cydnabod y gall darparu seilwaith mawr fod yn gymhleth a'i fod yn gysylltiedig â ffactorau allanol lluosog, ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i nifer o gyrff a meysydd gwasanaeth gydweithio mewn ffordd â ffocws a hyblyg.*
*Mae'r cyngor hwn hefyd yn nodi bod datblygwyr wedi'u rhwymo gan gytundebau cyfreithiol rwymol o ran eu rhwymedigaethau, ac y gallai ychwanegu haen ychwanegol o orfodaeth fod yn wrthgynhyrchiol wrth i hyblygrwydd a chydweithredu gael ei ddisodli gan ddull mwy caeth.*

Mae'r Cyngor hwn yn galw ar:

1) Datblygwyr i ~~sicrhau eu bod yn~~ *barhau i* cydymffurfio ag amodau a rhwymedigaethau adran 106 o fewn caniatadau cynllunio ar gyfer datblygiadau newydd mawr.

~~Y Cabinet i gyflwyno adroddiad yn amlinellu sut y caiff trefn gorfodi cynllunio'r Cyngor ei chryfhau o ran adeiladu darpariaethau, yn enwedig cyfleusterau cymunedol, y mae rhwymedigaethau adran 106 yn berthnasol iddynt, ar ddatblygiadau newydd. Dylai hyn gynnwys sut y cyflawnir hyn yng nghyd-destun y Cynllun Datblygu Lleol presennol ac unrhyw gynllun newydd.~~

2) *Y Cabinet i gyflwyno adroddiad yn amlinellu cynnydd o ran adeiladu darpariaethau a gwmpesir gan rwymedigaethau Adran 106, yn enwedig cyfleusterau cymunedol, ar ddatblygiadau newydd. Dylai hyn gynnwys sut y cyflawnir hyn yng nghyd-destun y Cynllun Datblygu Lleol presennol ac unrhyw gynllun newydd.*

Byddai'r cynnig terfynol, fel y'i diwygiwyd, yn darllen:

Mae'r Cyngor hwn yn nodi:

1) Mae datblygiadau tai mawr newydd yng Nghaerdydd naill ai wedi'u hadeiladu'n ddiweddar, yn cael eu hadeiladu neu'n barod i ddechrau.  Mae'r rhain yn rhan o Gynllun Datblygu Lleol (CDLl) gofynnol y ddinas i adeiladu 40,000 o gartrefi yn y cyfnod 2006-2026.  Rhaid i o leiaf 6,500 o'r rhain fod yn dai fforddiadwy.

2) Mae'r egwyddor uwchgynllunio a ddefnyddir yn y CDLl yn golygu bod angen taliadau sylweddol Adran 106 ar yr holl safleoedd hyn gan y datblygwyr i dalu am amrywiaeth o amwynderau, gan gynnwys cyfleusterau cymunedol fel ysgolion, meddygfeydd, neuaddau, siopau, adeiladau cymunedol eraill neu welliannau cludiant o bosibl. Mae'r cytundebau hyn yn gyfreithiol rwymol ac eisoes mae dros chwarter biliwn o bunnoedd o fuddsoddiad wedi'i sicrhau ar gyfer safleoedd strategol presennol y CDLl.

3) Mae'r rhwymedigaethau cynllunio ar y safleoedd hyn yn aml yn cynnwys pwynt sbarduno, neu derfyn amser meddiannaeth, ar gyfer cychwyn neu gwblhau'r rhwymedigaeth, megis ysgol.

Mae'r Cyngor hwn yn nodi y gall rhai sbardunau fod yn syml, gall eraill fod yn fwy cymhleth, gan gynnwys prosesau cydsynio ar wahân i sicrhau'r cyfleusterau gorau er budd y cyhoedd. Mae'n cydnabod y gall darparu seilwaith mawr fod yn gymhleth a'i fod yn gysylltiedig â ffactorau allanol lluosog, ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i nifer o gyrff a gwasanaethau gydweithio mewn ffordd sydd â ffocws ac sy'n hyblyg.
Mae'r cyngor hwn hefyd yn nodi bod datblygwyr â chytundebau sy'n eu rhwymo'n gyfreithiol o ran eu rhwymedigaethau, ac y gallai ychwanegu haen ychwanegol o orfodaeth fod yn wrthgynhyrchiol wrth i hyblygrwydd a chydweithrediad gael ei ddisodli gan ddull mwy anhyblyg.

Mae'r Cyngor hwn yn galw ar:

1) Datblygwyr i barhau i gydymffurfio ag amodau a rhwymedigaethau adran 106 o fewn caniatadau cynllunio ar gyfer datblygiadau newydd mawr.

3) Y Cabinet i gyflwyno adroddiad yn amlinellu cynnydd o ran adeiladu darpariaethau a gwmpesir gan rwymedigaethau adran 106, yn enwedig cyfleusterau cymunedol, ar ddatblygiadau newydd. Dylai hyn gynnwys sut y cyflawnir hyn yng nghyd-destun y Cynllun Datblygu Lleol presennol ac unrhyw gynllun newydd.

Eiliwyd y diwygiad yn ffurfiol gan y Cynghorydd Keith Jones.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer drafodaeth ar y cynnig a'r diwygiadau.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd Driscoll i ymateb i eitemau a godwyd yn ystod y drafodaeth. Cadarnhaodd y Cynghorydd Driscoll nad oedd yn derbyn y diwygiad.

Cafodd y bleidlais ar y diwygiad a gynigiwyd gan y Cynghorydd Michael ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Keith Jones ei DERBYN.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd Michael i ymateb ar y Cynnig Terfynol.

Cafodd y bleidlais ar y Cynnig Terfynol fel y'i cynigiwyd gan y Cynghorydd Michael ei DERBYN.

137 : CWESTIYNAU AR LAFAR

Cwestiwn – y Cynghorydd Dianne Rees

Yr oeddech yn un o'r ddau lofnodwr i'r llythyr defnyddiol a anfonwyd at bob cartref yng Nghaerdydd, Len Richards, Prif Swyddog Gweithredol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro oedd y llall. O'r herwydd, mae'n debyg eich bod yn ymwneud yn agos â chyflwyno'r rhaglen frechu y cytunwyd arni gan Gyd-bwyllgor Brechu Annibynnol y DU ar Frechu ac Imiwneiddio, y cytunwyd arni gan bob un o'r pedair gwlad yn y DU, a benderfynodd restr flaenoriaeth a oedd yn nodi "Yn y cam cyntaf, byddwn yn brechu yn ôl oedran a risg salwch difrifol os bydd rhywun yn dal y coronafeirws". Ac eto, yn y diweddariad a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Iechyd ar 15 Ionawr, roedd yn amlwg, o'r 18,532 dos a ddarparwyd, mai dim ond 1,472 dos a roddwyd i breswylwyr cartrefi gofal a thros 80 oed mewn grwpiau blaenoriaeth 1 a 2. Gwahaniaeth sy'n peri pryder gwirioneddol.

Pa rôl y mae Cyngor Caerdydd wedi'i chael wrth ei chyflwyno hyd yn hyn a beth yr ydych yn ei wneud i sicrhau bod trigolion mwyaf agored i niwed Caerdydd yn cael eu brechiadau yn gyntaf yn unol â'r rhestr flaenoriaethau y cytunwyd arni?

Ateb - y Cynghorydd Huw Thomas
Mae cydweithwyr iechyd yn arwain y gwaith o gyflwyno'r rhaglen frechu yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg yn unol â'r 'Strategaeth Frechu i Gymru'. Mae'r Cyngor yn parhau i gynorthwyo cydweithwyr iechyd i gyflwyno'r brechlynnau, yn enwedig wrth dargedu'r grwpiau mwyaf agored i niwed yn y ddinas.

Mae ffigurau a gyhoeddwyd yn gynharach heddiw yn dangos bod 1,529 o drigolion Cartrefi Gofal a 10,800 o bobl 80 oed a throsodd yng Nghaerdydd a'r Fro ddoe wedi derbyn eu dos cyntaf o'r brechlynnau.

Erbyn diwedd y mis hwn, nod cydweithwyr Iechyd yw bod wedi brechu pob Cartref Gofal yng Nghaerdydd a phawb yn y grwpiau blaenoriaeth uchaf 1-4 erbyn canol mis Chwefror.

Mae angen i unigolion aros 28 diwrnod ar ôl canlyniad prawf cadarnhaol cyn cael y brechlyn ac felly, bydd rhai pobl mewn Cartrefi Gofal neu'r grwpiau ehangach hynny’n cael eu brechu yn ddiweddarach.

Cwestiwn Atodol - y Cynghorydd Dianne Rees
Gallaf weld cynnydd da iawn wedi bod yn y broses o gyflwyno'r brechiad ac rwy'n falch iawn o hynny, ond a allwch ddweud pwy sy'n llunio'r rhestr frechu o weithwyr gofal iechyd, gofal cymdeithasol a chartrefi gofal, ac a oes unrhyw berygl y bydd eraill nad ydynt mewn grwpiau blaenoriaeth 1-4 yn cael gwahoddiadau i'r brechiad cyn y rhai mewn grwpiau blaenoriaeth 1-4.

Ateb – y Cynghorydd Huw Thomas
Rwy'n credu bod y Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o rai enghreifftiau o hynny'n digwydd, rwy'n deall mai dyna le mae rhif ffôn y gwasanaeth archebu wedi'i rannu a phobl nad ydynt yn gymwys i gael y brechlyn ar hyn o bryd, sy’n ei ffonio a'i ddefnyddio. Os edrychwch ar wefan

y Bwrdd Iechyd mae rhybuddion clir iawn ynghylch peidio â gwneud hynny ac anogaf bob dinesydd i barchu hynny oherwydd y cyfan yr ydych yn ei wneud yw amddifadu pobl yn y grwpiau blaenoriaeth a rhwystro'r system.

Cwestiwn - y Cynghorydd Carter

A wnaeth y cyngor gynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb cyn penderfynu cau pob toiled cyhoeddus?

Ateb - y Cynghorydd Michael
Mae toiledau cyhoeddus wedi'u cau gan y Cyngor mewn ymateb i'r cyfyngiadau cloi presennol oherwydd y risg y maent yn eu hachosi o ran trosglwyddo firysau a hefyd i annog pobl i aros gartref.

Wrth wneud y penderfyniad hwn, gwnaethom ystyried yn gyntaf cyngor swyddogion o fewn ein Tîm Iechyd a Diogelwch a hefyd gan y Tîm Clefydau Trosglwyddadwy o fewn y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir.

Ni chafodd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ei gynnal gan swyddogion ar y sail bod y risg covid uchel iawn i bawb ar Lefel Rhybudd 4, waeth beth fo'u nodweddion.

Cwestiwn Atodol - y Cynghorydd Carter
